Gwasanaethau ar gael drwy'r llyfrgell

Mae gan pob llyfrgell yng Ngwynedd gasgliad o lyfrau am ofalu; rhai ohonynt wedi'u hysgrifennu gan ofalwyr. Hefyd mae yno fynediad am ddim i gyfrifiaduron a'r rhyngrwyd mewn llyfrgelloedd – mae llawer fforymau ar-lein sydd yn benodol i ofalwyr a fyddech, efallai, yn canfod yn ddefnyddiol. Mae wi-fi hefyd ar gael ym mhob llyfrgell.

Llyfrgell i'r Cartref

Mae Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd yn cynnig gwasanaeth llyfrgell i'r cartref, mewn achosion ble mae person yn:

- dioddef o anawsterau symudedd
- methu cario eitemau
- dioddef o salwch tymor hir
- byw yn bell o fan gwasanaeth llyfrgell (adeilad neu deithiol)

neu

- **edrych ar ôl rhywun yn llawn-amser**

Maent yn cynnig dewis o lyfrau a llyfrau llafar yn Gymraeg a Saesneg a llyfrau Print Bras - Cymraeg a Saesneg. Mae hwn yn wasanaeth misol cyfeillgar ac yn hollol rhad ac am ddim.

Gellir hefyd cysylltu gyda ni i gael llyfrgellydd i alw yn eich cartref i gynnig cymorth a chefnogaeth ddigidol i'ch helpu gyda sgiliau digidol neu ddefnyddio cyfrifiaduron neu ddyfais fel tabled/i-pad/ffôn os nad ydych yn gallu ymweld a'ch llyfrgell.

Gallwch wneud cais ar-lein am y gwasanaeth llyfrgell i'r cartref o'n safle we :- http://www.gwynedd.llyw.cymru/llyfrgell, neu drwy e-bost at llyfrgell@gwynedd.llyw.cymru
neu ffoniwch ni (01286) 679465

Casgliad Darllen Yn Well

Mae gennym gasgliadau o lyfrau sy'n delio'n benodol a rhoi cefnogaeth i rai sy'n byw gydag anhwylderau neu gyflyrau iechyd a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Mae'r llyfrau Darllen yn Well yn cynnwys llyfrau ar ddementia neu llyfrau ar iechyd meddwl ac ar gael trwy eich llyfrgell a gallwch archebu

unrhyw un o'r llyfrau. Nid oes dirwyon yn cael eu codi os yw'r llyfrau hyn yn cael eu dychwelyd yn hwyr.

Ewch i http://www.gwynedd.llyw.cymru/llyfrgell > Iechyd a Lles i ddarganfod mwy.

neu https://reading-well.org.uk/wales

Gweithgareddau

Mae gennym raglen amrywiol o weithgareddau iechyd a lles i oedolion o fewn rhai o'n llyfrgelloedd fel Lliwio i Ymlacio neu sesiynau crefft. Holwch yn eich llyfrgell neu dilynwch ni ar Facebook neu Trydar.

Llyfrgelloedd Gwynedd Libraries

@LlyfrGwyneddLib

e-adnoddau

Gyda'ch aelodaeth llyfrgell gallwch gael yr isod i gyd am ddim. Ewch i http://www.gwynedd.llyw.cymru/llyfrgell

- benthyg a lawrlwytho e-lyfrau ac e-lyfrau llafar yn Gymraeg a Saesneg trwy Borrowbox -
- lawrlwytho y cylchgronau mwyaf poblogaidd i'ch cyfrifiadur neu ddyfais, fel cylchgronau ar arddio, y tŷ, ffotograffiaeth, ceir a llawer iawn mwy...
- defnyddio gwefannau ancestry a Find My Past yn eich llyfrgell.